# Cronfa Bensiynau Clwyd

## Rheoli Risg yr Hinsawdd: Uchafbwyntiau hyd at 31 Mawrth 2023

### Credoau'r Gronfa


Gall ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, yn cynnwys newid hinsawdd, **effeithio ar berfformiad** buddsoddiadau'r Gronfa dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Mae **ymgymryd ag agwedd ehangach a hirdymor mewn perthynas â ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu** yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd sydd angen eu hystyried yn ofalus. Gellir nodi tueddiadau a themâu cynaliadwyedd.

Gall **stiwardiaeth dda** ychwanegu gwerth a lleihau risgiau yn y tymor hir.

### Dyraniad Asedau Strategol

Mae cyfanswm yr allyriadau a nodir yn y crynodeb hwn yn seiliedig ar allyriadau cwmpas 1 a 2 ac yn cwmpasu oddeutu 41% o ddyraniad asedau'r Gronfa (sy'n cynnwys bron bob un o'r asedau rhestredig). Mae data dibynadwy am allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gael yma.




Cwmpas 1: Allyriadau uniongyrchol o weithgarwch cwmni (er enghraifft, rhedeg cerbydau a boeleri nwy)

Cwmpas 2: Allyriadau anuniongyrchol (er enghraifft, trydan a brynwyd ar gyfer gwresogi ac oeri adeiladau)

### Targedau'r Gronfa

Y Gronfa Gyfan: Portffolio buddsoddi sero net erbyn 2045 neu'n gynharach.

Y Gronfa Gyfan: Gostyngiad o 50% neu fwy mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn diwedd 2030.

Ecwitïau Rhestredig yn Unig: Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 36% erbyn 2025 a 68% erbyn 2030.

### Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ar 31 Mawrth 2023

Mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol gan gwmnïau ym muddsoddiadau asedau rhestredig y Gronfa yn:

**97,878 tunnell**

Ers hyn mae'r Gronfa wedi lleihau'r ffigwr hwn, drwy newid i fuddsoddiadau gyda llai o gyswllt ag allyriadau carbon. **Mae hyn wedi lleihau allyriadau o oddeutu 12,000 tunnell (12%)**

### Allyriadau yn y byd go iawn

Mae'r gostyngiad o 12,000 tunnell yng nghwmpasau 1 a 2 yn gyfwerth â **thynnu 6,400 o geir oddi ar y ffordd.**

*Yn seiliedig ar filltiredd car ar gyfartaledd (**7,600** o filltiroedd y flwyddyn a **221g o garbon deuocsid** fesul milltir ar gyfer car o faint canolig.*

### Cyswllt â Refeniw Tanwyddau Ffosil

Mae polisi gwahardd y Gronfa wedi nodi cwmnïau sydd â chyswllt uchel â thanwydd ffosil. Trwy symud i fuddsoddiadau eraill a reolir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC),mae'r Gronfa wedi lleihau ei buddsoddiadau mewn cwmnïau gyda refeniw tanwydd ffosil o oddeutu £14 miliwn.Bu i gyswllt amcangyfrifedig ar draws cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru ostwng o £27m i £13m, yn seiliedig ar ddyraniad asedau strategol y Gronfa.

Gallwch ddarllen yr adroddiad Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd yn ei gyfanrwydd yma. Mae'n nodi'r holl ragdybiaethau, y cyfyngiadau a'r hysbysiadau pwysig am y data hinsawdd a gyflwynir yn y crynodeb hwn. **(Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).**

### Camau Allweddol a Gymerwyd

**Hyfforddiant:** Hyfforddiant parhaus ac adolygiad llawn o sgiliau i sicrhau bod y Gronfa'n meddu ar y wybodaeth gywir am ddatblygiadau mewn perthynas â risg newid hinsawdd a newidiadau cyfreithiol.

Mae **tri metrig**, yn cwmpasu oddeutu 41% o fuddsoddiadau'r Gronfa Credoau'r Gronfa Gall wedi cael eu dewis i fonitro'r cynnydd yn erbyn risgiau newid hinsawdd. Disgwylir y bydd lefel y buddsoddiadau'n cynyddu dros amser.

Mae **targedau wedi cael eu gosod** yn erbyn yr ecwitïau rhestredig ac mae polisi gwahardd ar waith (gweler Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi)

**Risgiau a Chyfleoedd:** Cynhelir dadansoddiadau rheolaidd i nodi risgiau yn gysylltiedig â newid hinsawdd a chyfleoedd y dylid eu blaenoriaethu i gynorthwyo â chyrraedd targedau'r Gronfa.

**Ymrwymiadau:** Ers 31 Mawrth 2022, mae'r Gronfa wedi ymrwymo £95 miliwn i fuddsoddiadau'r farchnad breifat. Y nod yw mynd i'r afael â throsglwyddo i economi carbon is ac elwa ohoni.

### Camau Gweithredu ar gyfer y Dyfodol

Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, i gyrraedd targedau a gytunwyd arnynt.

Lleihau cyswllt â chwmnïau tanwyddau ffosil a chael gwared ohonynt yn gyfan gwbl yn y pen draw.

Parhau i ymrwymo i fuddsoddiadau sy'n cefnogi symud i economi carbon is.

Cynyddu'r sylw a roddir i ddadansoddi buddsoddiadau'r Gronfa (er enghraifft, marchnadoedd preifat; yn amodol ar ansawdd ac argaeledd data).



# Chwalu Jargon

**Cronfa Bensiynau Clwyd ('y Gronfa'):** y Gronfa Bensiynau a reolir gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer gweithwyr awdurdod lleol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a gweithwyr cyflogwyr eraill sydd â chysylltiadau â llywodraeth leol yn yr ardal honno

**Allyriadau / Allyriadau Carbon:** y nwyon neu'r gronynnau sy'n cael eu rhyddhau i'r aer ac yn gallu cyfrannu at gynhesu byd-eang neu ansawdd aer gwael

**ACLl:** ystyr ACLl yw Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Pan mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cael eu hystyried, gelwir hyn yn aml yn "fuddsoddi cynaliadwy".

**Polisi Gwahardd:** mae hwn yn nodi pryd a sut y gallai'r Gronfa benderfynu i symud buddsoddiadau o gwmni penodol fel ein bod yn buddsoddi mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy.

**Tanwyddau Ffosil:** tanwyddau (megis glo, nwy, mawn ac olew) sy'n cael eu ffurfio yn y ddaear dros filoedd neu filiynau o flynyddoedd o blanhigion ac anifeiliaid marw ac sy'n dod i ben ar ôl eu llosgi.

**Nwyon Tŷ Gwydr:** nwyon yn yr atmosffer sy'n dal gwres ac yn achosi cynhesu yn yr atmosffer isaf. Mae'r nwyon tŷ gwydr mawr yn cynnwys carbon deuocsid, ocsid nitrus a methan.

**Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi:** y brif ddogfen sy'n amlinellu ein strategaeth mewn perthynas â sut rydym yn buddsoddi asedau Cronfa Bensiynau Clwyd.

**Asedau Rhestredig:** buddsoddiadau mewn cwmnïau sydd ar gael i fasnachu'n gyhoeddus (gall y rhain gynnwys "bondiau" sy'n fenthyciadau cwmni a "chyfranddaliadau neu ecwitïau") sy'n gyfrannau perchnogaeth yn y cwmni ac sy'n cael eu masnachu ar gyfnewidfa stoc.

**Economi Carbon Is:** system ariannol (economi), fel arfer o wlad neu ranbarth, yn canolbwyntio ar gamau gweithredu cynaliadwy, megis lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Sero Net:** mae hyn yn golygu cyflawni cydbwysedd cyffredinol rhwng allyriadau carbon deuocsid a gynhyrchir drwy weithgarwch dynol a charbon deuocsid o'r atmosffer, er enghraifft, adamsugno gan goedwigoedd. Mae'r term 'sero net' hefyd fel arfer yn gysylltiedig â dyddiad targed ar gyfer cyflawni hyn.

**Buddsoddiadau'r Farchnad Breifat:** buddsoddiadau nad ydynt ar gael i fasnachu'n gyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys Dyled / Ecwiti Preifat, Eiddo, Isadeiledd, Coed ac Amaethyddiaeth.

**Stiwardiaeth:** yng nghyd-destun buddsoddi, mae stiwardiaeth dda yn golygu bod yn gyfrifol wrth ddyrannu ein hasedau, eu rheoli a'u goruchwylio er mwyn creu gwerth hirdymor i weithwyr ac aelodau'r Gronfa, a buddion cynaliadwy i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas.

**Dyraniad Asedau Strategol:** rhannu asedau'r Gronfa i wahanol fathau o fuddsoddiadau, fel y nodir yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi.

**Cynaliadwyedd (neu fuddsoddi cynaliadwy):** dull lle mae buddsoddwyr yn rhoi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

**Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd:** fframwaith wedi'i ddylunio i wella a chynyddu adrodd ynghylch gwybodaeth ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

**Pontio:** y broses o symud oddi wrth brosesau dwys carbon uchel tuag at fodelau busnes ac asedau sydd wedi'u halinio â dyfodol carbon is.

**Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC):** cyfuniad o'r wyth cronfa CPLlL (Awdurdodau Cyfansoddol), yn cynnwys Cronfa Bensiynau Clwyd, sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Mae PPC yn un o wyth cronfa genedlaethol ar gyfer Pensiwn Llywodraeth Leol a sefydlwyd yn 2017.

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund